# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 1

YSMYGU

*Gorfodi*

### 20 Gwarant i fynd i mewn i annedd

(1) Caiff ynad heddwch arfer y pŵer yn is-adran (2) mewn perthynas â mangre yng Nghymru a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 5 neu 6 wedi ei chyflawni yn y fangre, a

(b) ei bod yn angenrheidiol mynd i mewn i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni.

(2) Caiff yr ynad ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, drwy rym os oes angen.

(3) Mae'r warant yn parhau mewn grym tan ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

(4) Mae'r adran hon yn gymwys i gerbyd fel pe bai'n fangre.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 20 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I2** A. 20 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 20 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2